

**Symud ymlaen i sefydlu corff
i fonitro a sicrhau
cydymffurfiaeth gyda chod
ymarfer cyflenwi nwyddau
cartref (GSCOP):
DYFARNWR COD NWYDDAU
CARTREF**

**Crynodeb Gweithredol o
ymateb y Llywodraeth i'r
ymgyngoriad – fersiwn
Gymraeg**

AWST 2010



Pennod 1: CRYNODEB GWEITHREDOL

1. Mae'r ddogfen hon yn gosod ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar sefydlu corff i fonitro a gweithredu cod ymarfer cyflenwi nwyddau cartref (GSCOP) a gynhaliwyd rhwng 5 Chwefror a 30 Ebrill 2010. Ceir y ddogfen ymgynghorol ar <http://www.bis.gov.uk/assets/biscore/consumer-issues/docs/10-577-monitoring-gscop-consultation.pdf>.

1.1 Mae Llywodraeth y DU yn gwbl gefnogol i'r angen am gorff o'r fath. Roedd y Weinyddiaeth flaenorol yn derbyn fod angen corff o'r fath i fonitro a gweithredu'r GSCOP, ac y dylai gael y grym i dderbyn cwynion dienw. Lansiodd ymgynghoriad cyhoeddus cyn gynted ag y daeth y GSCOP i rym. Roedd Rhaglen y Llywodraeth Glymblaid, a gyhoeddwyd ar 18 Mai, yn ymrwymo'r Llywodraeth i gyflwyno, fel cam cyntaf, Ombwdsmon yn y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) i weithredu'r Cod Ymarfer Cyflenwi Nwyddau Cartref ac i ffrwyno camddefnydd grym sy'n tanseilio ein ffermwyr ac yn gweithredu yn erbyn diddordeb tymor hir defnyddwyr. Gelwir y corff hwn yn Ddyfarnwr Cod Nwyddau Cartref (GCA).

1.2 Er mwyn casglu barn ar y prif faterion polisi, clustnododd y ddogfen ymgynghorol 5 prif faes lle ceisiwyd barn budd-ddeiliaid:

- Pa rymoedd y dylai'r corff sy'n monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP eu cael, yn ogystal â medru gwrando ar gwynion dienw;
- Mynediad at y corff;
- Pwy fedrai fod yn gorff monitro a gweithredu, yn cynnwys rhai opsiynau posibl;
- A ddylid cyflwyno trefn gosbi a sut ddylai weithredu wrth ochr peirianwaith apêl, ac;
- Ariannu'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP.

1. Derbyniwyd chwe deg o ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad. Daethant oddi wrth ystod o fudd-ddeiliaid yn cynnwys y prif adwerthwyr, cyflenwyr, cymdeithasau masnach, cyrff anllywodraethol, undebau, cyrff eraill y Llywodraeth, grwpiau eglwysi, elusennau a nifer o unigolion preifat (y mwyafrif wedi ymateb mewn cefnogaeth i ymgyrch ActionAid, "Who Pays?"). Roedd nifer o'r ymatebion yn sylweddol, gyda barn gref a dadleuon rhesymegol yn y mwyafrif o'r cwestiynau a holwyd yn y ddogfen ymgynghorol. Roedd ymatebion gan gymdeithasau masnach a grwpiau eraill â diddordeb yn cynrychioli, mewn rhai achosion, barn miloedd o aelodau, a arolygwyd wrth lunio eu cyflwyniadau.

1.4 Hoffai'r Llywodraeth gofnodi ei gwerthfawrogiad i bawb â ymatebodd. Mae'r holl ymatebion wedi cael eu hystyried yn ofalus. Penderfynwyd y tro hwn i beidio cyhoeddi'r ymatebion yn llawn gan fod nifer o'r rhai a ymatebodd wedi cyflwyno'u barn yn gyfrinachol. Yn y crynodeb hwn o ymatebion, felly, nid yw'r Llywodraeth wedi nodi tarddiad y sylwadau oni bai i'r mudiadau roi eu caniatâd.

1.5 Roedd barn gymysg ar yr angen am y GCA a'i swyddogaeth. Yn gyffredinol roedd cefnogaeth gref ymysg cyflenwyr i'r angen am y GCA a'r ystod o weithgareddau yn yr ymgynghoriad. Nododd nifer o ymatebwyr eu bod wedi bod yn galw am fwy o ymyrraeth yn y farchnad nwyddau cartref ers cryn dipyn o amser. Croesawyd y cynnydd diweddar.

1.6 Atgoffodd y mwyafrif o adwerthwyr y Llywodraeth fod y CC wedi canfod fod y farchnad nwyddau cartref yn iach, yn gwasanaethu cwsmeriaid yn dda, ac yn bennaf yn rhydd o nodweddion sy'n debygol o niweidio diddordeb defnyddwyr. Pwysleisiodd adwerthwyr eu bod bob amser yn ceisio delio'n deg a sefydlu partneriaethau gwaith da gyda'u cymuned cyflenwyr. Er bod adwerthwyr yn amlwg yn gofyn iddynt fod yn effeithiol yn eu rheolaeth costau, cynhyrchu a logisteg, roeddent hefyd yn darparu ysgogiad iddynt fuddsoddi.

1.7 Er bod nifer o'r ymatebwyr yn cydnabod fod sawl perthynas waith ardderchog, hir dymor yn bodoli rhwng cyflenwyr ac adwerthwyr, rhywbeth y mae cynhyrchwyr sylfaenol yn dibynnu arno ar gyfer hyfywedd eu busnesau, fodd bynnag roedd gwahaniaeth grym gyda rhai adwerthwyr yn dal mantais dros gyflenwyr gweddol fawr hyd yn oed. Roedd hyn ynglŷn â thegwch yn y gadwyn gyflenwi, ac roedd nifer o'r ymatebwyr yn annog y Llywodraeth i symud yn gyflym a gweithredu fel yr argymhellwyd gan y CC.

1.8 Roedd cefnogaeth ar gyfer GCA annibynnol, a dealltwriaeth y gellid ei gartrefu yn yr OFT pe gellid gosod trefniadau i'w wahaniaethu rhag gweithgareddau dyddiol arferol yr OFT.

1.9 Roedd cefnogaeth gref ymysg yr holl adwerthwyr i'r GSCOP wedi'i ddiwygio a'i gryfhau, a ddaeth i rym ym mis Chwefror. Roeddent wedi cymryd y camau angenrheidiol i gydymffurfio, yn cynnwys hyfforddi staff, newidiadau i brosesau a systemau, a chyflwyno Swyddogion Cydymffurfiaeth gyda'r Cod i gyflawni'r rhwymedigaethau newydd. Ymgwymerwyd â hyn ar gost sylweddol. Roedd adwerthwyr, felly, yn siomedig fod y Llywodraeth wedi penderfynu sefydlu corff gweithredu cyn rhoi cyfle i'r GSCOP sefydlu a phrofi y gallai weithio'n effeithiol heb angen gweithredu pellach. Roedd adwerthwyr, felly, yn gyffredinol yn gwrthwynebu creu GCA, ond yn cefnogi ei leoli o fewn yr OFT os oedd yn cael ei weithredu. Roedd adwerthwyr yn awyddus i'r GCA ganolbwyntio ar enghreifftiau o dorri'r GSCOP a pheidio crwydro i'r meysydd masnachol eraill. Rhaid iddo beidio trawsnewid i fod yn reolydd archfarchnad. Rhaid iddo beidio bod yn ddylanwad niweidiol ar y tensiwn cystadleuol bregus yn y gadwyn gyflenwi, sydd hyd yma wedi arwain at fuddiannau sylweddol i'r defnyddiwr.

1.10 Roedd grymoedd ymchwilio o bwysigrwydd arbennig i gyflenwyr. Roedd y rhai a gefnogai'r angen am GCA i weithredu'r GSCOP yn dweud ei fod yn bennaf ynglŷn â sicrhau perthynas deg a chyfartal rhwng adwerthwyr a chyflenwyr. Ystyriwyd hyn yn hanfodol er mwyn i'r gadwyn gyflenwi bwyd weithio'n effeithiol er lles defnyddwyr, wrth ddarparu bargaen deg i gyflenwyr, yn cynnwys cynhyrchwyr sylfaenol megis ffermwyr.

1.11 Roedd gwahaniaeth eang mewn barn ar ba mor rhagweithiol y dylai'r GCA fod, a mynediad ato, fodd bynnag roedd cytundeb cyffredinol na ddylid eithrio cyflenwyr mawr. Nid oedd consensws ar bwy ddylai fedru cwyno wrth y GCA. Roedd barn yn amrywio o rwystro cyflenwyr uniongyrchol rhag cael mynediad i ganiatáu cwynion gan unrhyw un.

1.12 Hefyd mynegwyd sawl gwahanol farn ar y defnydd o gosb fel arf hanfodol i atal enghreifftiau o dorri'r cod. Roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer system o "enwi a chywilyddio" a fyddai'n effeithio ar enw da adwerthwyr ac yn ataliad effeithiol. Roedd mwy o anghydfod am gosbau ariannol, yn arbennig am y lefel y dylid eu gosod, a phryd y byddai'n fwyaf priodol i'w defnyddio.

1.13 Roedd consensws cyffredinol am yr egwyddorion sut ddylai'r GCA gyflawni ei waith ac y dylai gael ei ariannu ar hyd yr egwyddorion a argymhellwyd gan y CC.

1.14 Yng ngoleuni'r farn a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad a safbwynt y Llywodraeth a gyhoeddwyd ar 18 Mai, penderfynodd y Llywodraeth barhau i sefydlu'r GCA fel a ganlyn:

- **Lleoliad y corff** – Yn unol gyda Rhaglen y Glymblaid, bydd y GCA yn cael ei leoli yn yr OFT, ond bydd yn cael ei gadw'n annibynnol o lwybr penderfyniadau arferol yn yr OFT. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod ei fod yn bwysig gwahanu'r swyddogaeth newydd hon o weithgareddau cystadleuaeth a defnyddwyr arferol yr OFT.
- **Grymoedd y dylai'r corff eu cael** – Mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r farn mai gweithio er lles tymor hir defnyddwyr ddylai fod yn brif amcan i'r GCA. Ni ddylai'r GCA hwyluso nac annog cydgysylltiad ymysg cyflenwyr ac adwerthwyr. Dylai prif sylw'r GCA fod ar y GSCOP a dylai osgoi unrhyw weithgaredd nad yw'n canolbwyntio ar brif amcan y Cynllun. Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai'r GCA fedru derbyn cwynion a chynnal ymchwiliadau lle bo'r corff yn ystyried fod hynny'n angenrheidiol. Dylai ymchwiliadau fod ar sail cwynion teilwng neu wybodaeth briodol arall sy'n gyhoeddus.

Clustnododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad rai gweithgareddau pellach y mae'r Llywodraeth yn barod i'w derbyn. Yn eu mysg mae'r grym i fonitro arferion newydd sy'n codi ac i fedru argymhell newidiadau i'r GSCOP. Ymysg yr argymhellion eraill y mae'r Llywodraeth yn eu derbyn mae'r gallu i'r GCA ymweld â chyflenwyr tramor dan amodau priodol ac i gyhoeddi rhybuddion ar adegau penodol o'r flwyddyn pan fo camymddygiad yn fwy tebygol o ddiwydd.

- **Mynediad at y corff** - Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu y dylai'r GCA gael grym i dderbyn cwynion dienw oddi wrth unrhyw un yn y gadwyn gyflenwi yma neu dramor. Mae hyn yn cynnwys ffermwyr nad ydynt o bosib yn cyflenwi'n uniongyrchol i'r archfarchnadoedd mawr, ac mae'n gyson gyda Rhaglen y Glymblaid i gefnogi ffermwyr. Mae gan

gymdeithasau masnach, cyrff anllywodraethol a chymdeithasau eraill ran ddefnyddiol i'w chwarae o hyd wrth gynnig cyngor a chymorth i'w budd-ddeiliaid, ond rhaid i gwynion ddod yn uniongyrchol oddi wrth y busnesau sy'n cael eu heffeithio. Dylai cyflenwyr mawr gael mynediad at y GCA.

- **A ddylid cyflwyno trefn gosbi a sut fyddai'n gweithredu wrth ochr peirianwaith apêl** – Mae'r Llywodraeth wedi gwrandao ar bob ochr o'r drafodaeth o ran cosbau. Penderfynodd mai amddiffyn enw da fyddai'n fwyaf effeithiol ar gyfer newid ymddygiad adwerthwyr. Fodd bynnag, bydd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn darparu grymoedd i'r Llywodraeth gyflwyno cosbau ariannol os fydd profiad yn y dyfodol yn dangos fod amddiffyn enw da yn unig yn annigonol.
- **Ariannu'r corff sy'n monitro a gweithredu cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP** – Bydd y Llywodraeth yn ystyried ymhellach y peirianwaith tecach a mwyaf priodol i adwerthwyr ariannu'r GCA.
- **Enw'r corff** – Mae'r Llywodraeth wedi derbyn y cyngor nad yw "Ombwdsmon" yn enw priodol ar gyfer corff o'r natur hwn. Mae Ombwdsmon fel rheol yn darparu peirianwaith iawndal effeithiol ar gyfer defnyddwyr a dinasyddion unigol. Mae'r corff hwn yn ymwneud â pherthynas busnes a busnes o fewn y gadwyn gyflenwi nwyddau cartref. Penderfynodd y Llywodraeth y dylid enwi'r corff yn Ddyfarnwr Cod Nwyddau Cartref (GCA).

1.15 Ceir crynodeb llawnach o'r ymatebion i'r cwestiynau a holwyd yn yr ymgynghoriad ym Mhennod 3, a phenderfyniadau'r Llywodraeth ym Mhennod 4. Ceir asesiad effaith yn cynnwys dadansoddiad costau a buddiannau yn Atodiad D.

1.16 Gellir dosbarthu'r 60 ymateb yn fras i'r categorïau canlynol:

Cyrff Masnach - 21
Unigolion - 14
Adwerthwyr mawr - 10
Mudiadau anllywodraethol - 4
Cyrff Llywodraethol - 3
Grwpiau Crefyddol - 3
Elusennau - 2
Cyflenwyr - 2
Cyfreithiol - 1

Pennod 2: CYFLWYNIAD

2. Mae adroddiad terfynol y CC i gyflenwad nwyddau cartref y DU, a gyhoeddwyd ar 30 Ebrill 2008, yn gosod y canfyddiadau a'r atebion yn dilyn ymchwiliad 2 flynedd. Er i'r CC glustnodi fod y defnydd o rym prynwyr gan adwerthwyr nwyddau cartref yn medru arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr, drwy brisiau is, roedd hefyd yn gweld y gallai godi pryderon dan rhai amgylchiadau penodol cyfyngedig. Pan fo adwerthwyr nwyddau cartref yn trosglwyddo risg gormodol neu gostau annisgwyl i'w cyflenwyr, mae'n debygol o leihau ysgogiad cyflenwyr i fuddsoddi mewn gallu, nwyddau a phrosesau cynhyrchu newydd.

2.1 Daeth y CC i'r casgliad, pe bai hyn yn parhau'n ddirwystr, y byddai yn y pen draw yn cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr, drwy arwain at nwyddau o safon is, llai o ddewis o nwyddau, neu lai o arloesedd nwyddau, nad ydyw er budd defnyddwyr yn y tymor hir.

2.2 I wynebu'r pryderon a glustnodwyd, penderfynodd y CC sefydlu Cod Ymarfer Cyflenwi Nwyddau Cartref (GSCOP) newydd. Mae'r Cod hwn, a ddaeth i rym ar 4 Chwefror 2010, yn berthnasol i bob cwmni sy'n weithgar yn y sector ac sydd â throsiant adwerthu nwyddau cartref blynyddol o £1biliwn neu fwy. Mae'r GSCOP newydd wedi'i seilio ar Cod Ymarfer Archfarchnadoedd (SCOP) 2001. Mae'r GSCOP yn cryfhau ac yn ehangu'r SCOP yn sylweddol, yn gofyn i adwerthwyr, er enghraifft, roi pob cytundeb yn ysgrifenedig ac yn atal addasiadau ôl-weithredol i daliadau. Mae'r GSCOP hefyd yn caniatáu cymodi annibynnol gorfodol ar gyfer anghydfodau ac yn gofyn i adwerthwyr nwyddau cartref i ddarparu rhybudd rhesymol a chyfiawnhad masnachol cyn tynnu enwau cyflenwr oddi ar eu rhestrau (mae'r GSCOP yn dweud y gall adwerthwr dynnu enw cyflenwr oddi ar restr am resymau masnachol gwirioneddol yn unig).

2.3 Dywedodd nifer o gyflenwyr wrth y CC eu bod yn gyndyn o ddefnyddio'r drefn cwynion yn y SCOP yn sgil pryderon am gael eu henwi a'u tynnu oddi ar restrau'r adwerthwyr.

2.4 Ystyriodd y CC y byddai'r GSCOP yn llawer mwy effeithiol gydag Ombwdsmon i herio'r "hinsawdd o ofn" a oedd yn bodoli, yn ôl nifer o gyflenwyr, dan y cod ymarfer blaenorol. Cred y CC fod y corff, a elwir yn Ddyfarnwr Cod Nwyddau Cartref (GCA), yn angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP a chynnal ymchwiliadau.

2.5 Nid oes gan y CC rymoedd i sefydlu cyrff cyhoeddus newydd. Er gwaethaf rownd o ymgynghoriadau nid oedd modd i'r CC gael ymrwymiad gan yr adwerthwyr nwyddau cartref i sefydlu Ombwdsmon GSCOP¹. Ar 4

¹[http://www.competition-](http://www.competition-commission.org.uk/inquiries/ref2006/groceries/pdf/gscop_2_bis_letter.pdf)

[commission.org.uk/inquiries/ref2006/groceries/pdf/gscop_2_bis_letter.pdf](http://www.competition-commission.org.uk/inquiries/ref2006/groceries/pdf/gscop_2_bis_letter.pdf)

Awst 2009 gofynnodd y CC yn ffurfiol i'r Llywodraeth gymryd camau angenrheidiol i sefydlu Ombwdsmon effeithiol.

2.6 Ar 13 Ionawr cyhoeddodd y Llywodraeth ar y pryd ei ymateb i'r argymhellion, gan nodi ei fod yn:

- Derbyn barn y CC fod angen monitro a gweithredu annibynnol ar y GSCOP i lawn wynebu'r Effaith Negyddol ar Gystadleuaeth;
- Cytuno y dylai'r corff sy'n monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP gael grym i wrando ar gwynion dienw;
- Ymgynghori ar ôl i'r GSCOP ddod i rym ar 4 Chwefror 2010 ar y grymoedd penodol y dylai corff i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP eu cael, ac a ddylid sefydlu corff newydd neu roi'r grymoedd hyn i gorff sydd eisoes yn bodoli.

2.7 Lansiodd ymgynghoriad ar 5 Chwefror ac fe ddaeth i ben ar 30 Ebrill.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar:

- Pa rymoedd y dylai'r corff sy'n monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP eu cael, yn ogystal â medru gwranddo ar gwynion dienw;
- Mynediad at y corff;
- Pwy fedrai fod yn gorff monitro a gweithredu, yn cynnwys rhai opsiynau posibl;
- A ddylid cyflwyno trefn gosbi a sut y dylai weithredu wrth ochr unrhyw beirianwaith apêl, ac;
- Ariannu'r corff monitro a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r GSCOP.

2.8 Rhoddwyd cyfle i'r holl rai â diddordeb yn y gadwyn gyflenwi nwyddau cartref gyflwyno barn ar y dewisiadau polisi. Roedd hyn yn cynnwys yr adwerthwyr nwyddau cartref mwyaf, a gwmpaswyd yn uniongyrchol gan y GSCOP, wrth ochr adwerthwyr nwyddau cartref canolig a llai y gallai gael eu heffeithio gan fonitro a gweithredu annibynnol. Roeddem hefyd am glywed barn y rhai sy'n cyflenwi adwerthwyr mawr nwyddau cartref naill ai yn uniongyrchol neu drwy lwybrau eraill, yn ogystal â thrydydd partïon eraill yn cynnwys elusennau a chyrrff anllywodraethol. Mae'r GSCOP ei hun yn berthnasol yn unig i'r cyflenwyr uniongyrchol sy'n delio gyda'r 10 adwerthwr a nodwyd.